# Ysbyty Gwynedd ED



Tachwedd 2017/November 2017

FB.COM/BCUHEALTHBOARD @BCUHB

**Eich diweddariad misol ar y gwelliannau i Adran Achosion Brys Ysbyty Gwynedd**

**Bringing you your monthly update on the improvement works at Ysbyty Gwynedd's ED**

Mae gwaith adeiladu'n mynd rhagddo yn dda yn yr Adran Achosion Brys ac mae'r tîm yn gweithio'n galed i gwblhau tu allan yr adeilad ac i greu'r ardal gollwng newydd i ambiwlansys.

Mae'r tîm bellach yn edrych ymlaen at weld tynnu'r canopi ym mhen blaen yr adeilad a gaiff ei dynnu cyn y Nadolig.

Construction work is progressing well at the Emergency Department with the team working hard completing the outside of the building and forming the new ambulance drop off area.

The team are now looking forward to seeing the removal of the canopy at the front of the building which will be removed before Christmas.








GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board

# CYFARFOD TÎM YR ADRAN AB

# MEET THE ED TEAM




Dyma Pete Williams sy'n feddyg ymgynghorol mewn meddygaeth beadiatrig frys yn Adran Achosion Brys Ysbyty Gwynedd.

Yn ogystal â gweithio yn ein Hadran Achosion Brys, mae Pete hefyd yn gweithio'n rhan-amser i Dîm Meddygon sy'n Hedfan Cymru, gwasanaeth y GIG sy'n gweithio mewn partneriaeth ag Elusen Ambiwlans Awyr Cymru, o Faes Awyr Caernarfon.

Mae'r Adran Achosion Brys yn gweld rhyw 16,000 o blant y flwyddyn ac ar hyn o bryd, nid oes unrhyw ardal aros ar wahân ar eu cyfer.

Dywedodd Pete, sydd wedi wynebu llawer o sefyllfaoedd gwahanol yn ei swydd, o ddelio â brathiadau gwiberod i drawma mawr: "Bydd y datblygiad newydd hwn o fudd i blant sy'n dod i'r Adran Achosion Brys, bydd yr adeilad newydd yn darparu ardal aros ar gyfer plant a fydd yn cynnig amgylchedd sydd â mwy o le ac sy'n fwy llachar a bydd hefyd yn ei wneud yn brofiad llai trawmatig pan fyddan nhw'n ymweld â'r Adran Achosion Brys. Rydym i gyd yn edrych ymlaen yn fawr at weld y gwaith yn cael ei gwblhau."

Meet Pete Williams who is a consultant in paediatric emergency medicine at Ysbyty Gwynedd's Emergency Department.

As well as working at our ED Pete also works part time for the Welsh Flying Medics Team, an NHS service that works in partnership with the Wales Air Ambulance Charity, from Caernarfon Airport.

The Emergency Department sees around 16,000 children a year and there is currently no separate waiting area for them.

Pete, who has faced many scenarios in his job, from dealing with adder bites to major trauma, said: "This new development is going to benefit children coming into the ED, the new build will provide a separate waiting area for children which will provide a more spacious and bright environment and will also make it a less traumatic experience for them visiting the ED. We are all very much looking forward to seeing the work completed."

Interserve
Ingenuity at work



@IRVConstruction

## Adroddiad rheolwr y safle, Iwan Lewis

Mae'r tim yn gweithio gyda'i gilydd ar hyn o bryd yn ysbryd cydweithio ac mewn partneriaeth wirioneddol i gwblhau cragen allanol y datblygiad cyffrous newydd hwn.

Maen nhw yn y broses o greu'r ardal ollwng newydd i ambiwlansys a fydd yn helpu i wella profiad y cleifion.

Er gwaethaf nifer o heriau, nad ydynt yn anghyffredin gyda phrosiect fel hyn, mae'r tîm wedi gweithio i oresgyn y rhain a disgwylir i gam cyntaf y datblygiad newydd gael ei gwblhau ganol mis Chwefror.


## Site manager, Iwan Lewis' report

The team is currently working together in a spirit of collaboration and true partnership to complete the external shell of this new exciting development.

They are in the process of constructing the new ambulance drop off area which will help to improve the patients' experience.

Despite a number of challenges, which are not uncommon with a project of this nature the team has worked to overcome these and this first phase of the new development is scheduled for completion in mid-February.










**Edrychwch allan am ein newyddlen nesaf yn ystod mis Rhagfyr, a fydd yn cynnwys mwy o ddiweddariadau am y datblygiad, a newyddion gan ein staff a'n cleifion!**

**Look out for our next newsletter during December which will feature more updates on the development and news from our staff and patients!**



GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board





Mae ein tîm Adran Achosion Brys yn aros mewn hwyliau da yn ystod y gwaith gwella trwy gydnabod gwaith called y nail a'r llall!

Mae'r staff yn defnyddio system fewnol o'r enw 'Greatix' i logio diolchiadau ac anfon cyd-nabyddiaeth er mwyn rhoi adborth i'w cydweithwyr ar gael cymaint o hwyl ar eu gwaith.

Nikki Sommers, meddyg yr Adran Achosion Brys, sydd y tu ôl i'r syniad o wella morâl.

Dywedodd: "Roeddem ni eisiau ceisio denu ychydig o adborth cadarnhaol yn yr Adran Achosion Brys a helpu i wella morâl a llongy-farch staff diwyd am y gwaith gwych maen nhw'n ei wneud bob dydd.

"Rydym ni'n helpu i ledaenu cariad a phosi-tifrwydd un 'greatix' ar y tro!"

Our ED team are keeping their spirits up during the improvement works by acknowledging each others hard work!

The staff are using an internal system called 'Greatix' to log a thank you and send an acknowledgement to provide feedback to their colleagues for doing a great job.

Nikki Sommers, ED doctor, is behind the mo-rale boosting idea.

She said: "We wanted to try and bring some positive feedback into the ED and help improve morale and congratulate our hard working staff on the great job they are doing each day.

"We're helping spread love and positivity one greatix at a time!"

**Ydych chi' wedi gweld ein galeri lluniau a fideo?**

Gallwch weld ailddatblygiad yr Adran Achosion Brys yn datblygu ar dudalen benodol ar ein gwefan.
Edrychwch ar galeri ein prosiect, a gwrandewch ar ein staff yn egluro sut fydd y datblygiad hwn o fudd iddynt ac yn gwella gofal ein cleifion.
Ewch ar www.bcu.wales.nhs.uk am fwy o wybodaeth.

**Have you seen our image and video gallery?**

You can see the Emergency Department re-development take shape on a dedicated page on our website.

Take a look at our project gallery, and listen to our staff explain how this development will benefit them and improve the care of our patients.
Visit www.bcu.wales.nhs.uk for more information.

